



# Tyfu Canolbarth Cymru Tachwedd 2025

**Croeso!**

Mae diweddariad y mis hwn yn dod â gwybodaeth am gynnydd ar draws sawl maes allweddol, gan gynnwys arloesi ynni sy’n symud i gam profi prototeipiau, ymgysylltiad cynnar â'r platfform ‘Gyrfaoedd mewn 360’, datblygiadau ar y ffair gyrfaoedd rhithwir ‘Byd Gwaith 360’, a’r penodau cyntaf o’n cyfres podlediadau Trafodaethau Digidol. Rydym hefyd yn rhannu diweddariadau o Wobrau Busnes Powys, yn cyflwyno aelodau newydd o'r tîm, ac yn darparu’r wybodaeth ddiweddaraf am y Gronfa Buddsoddi Eiddo Masnachol wrth i naw prosiect symud i’r Cam Datblygu.

Gyda gweithgarwch parhaus ar draws ynni, sgiliau, cefnogaeth fusnes a mentrau dan arweiniad cymunedau, mae’r rhifyn hwn yn rhoi trosolwg o’r gwaith sy’n digwydd ar draws y rhanbarth wrth inni nesáu at ddiwedd y flwyddyn. Bydd ein cylchlythyr mis Rhagfyr yn cynnwys adolygiad llawn o 2025 a chyhoeddiad cyffrous ar gyllid y Fargen Twf.

**Tîm Tyfu Canolbarth Cymru**

[Clawr: Platfform Gyrfaoedd mewn 360]

## Cynnwys



- Prosiectau Canolbarth Cymru yn symud i'r cam prototeipiau i ddarparu atebion ynni glân yn y byd go iawn
- Gyrfaoedd mewn 360: Dod â llwybrau gyrfa’n fyw ledled Canolbarth Cymru
- Trafodaethau Digidol
- Gwobrau Busnes Powys 2025


- Tîm Tyfu Canolbarth Cymru – Aelodau newydd
- Diweddariad - Y Gronfa Buddsoddi Eiddo Masnachol
- Rydym bellach ar Instagram! – dilynwch ni!
- Newyddion Cronfa Ffyniant Cyffredin
- Pwy sy ar y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Caru Ceredigion 2025?
- Newyddion eraill – diweddariadau a chyfleoedd a rennir gan sefydliadau partner

## Prosiectau Canolbarth Cymru yn symud i'r cam prototeipiau i ddarparu atebion ynni glân yn y byd go iawn

Mae'n bleser gan Tyfu Canolbarth Cymru gyhoeddi y bydd y rhaglen Ymchwil ac Arloesi Systemau Cyfan ar gyfer Datgarboneiddio (WSRID) ), a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy Tyfu Canolbarth Cymru, yn parhau. Yn dilyn gwaith llwyddiannus ar ddichonolrwydd yn ystod Cam 1 ddechrau 2025, mae sawl prosiect wedi cael cymorth erbyn hyn ac mae tua £500,000 o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer arloesi o ran yr hinsawddwedi'i glustnodi er mwyn galluogi prosiectau i symud ymlaen i Gam 2 lle byddant yn ymdrechu ar y cyd i ddatblygu prototeipiau ac arddangoswyr.

Darllenwch mwy am y tri phrosiect a fydd yn symud yn eu blaen gyda chyllid Cam 2, sef: HARVEST,  & W2W (Water to Water) ar [ein wefan.]()



# Gyrfaoedd mewn 360: Dod â llwybrau gyrfa'n fyw ledled Canolbarth Cymru

Mae Tyfu Canolbarth Cymru a'r Bwrdd Sgiliau Rhanbarthol yn falch o gyflwyno'r porth Gyrfaoedd mewn 360 – platfform gyrfaoedd digidol arloesol a ddatblygwyd mewn cydweithrediad ag 'One Step North' a sefydliadau cyhoeddus ledled Cymru, gan gynnwys prifysgolion, colegau ac ysgolion.

Mae'r porth, sydd wedi bod ar gael ers 1 Tachwedd, eisoes wedi denu dros 2,000 o ymwelwyr.

Mae lansiad i ysgolion ledled Ceredigion a Phowys ar y gweill, gan roi profiad trochiad ac ymarferol o fyd gwaith i ddysgwyr.

Gall myfyrwyr archwilio dros 250 o rolau gyrfa ar draws 23 sector, o ddigidol a pheirianneg i ddiwydiannau creadigol, iechyd, adeiladu a mwy - i gyd drwy gynnwys fideo 360°, teithiau gweithle rhithwir a phrofiadau "diwrnod yn y bywyd".

**Beth sy'n gwneud Gyrfaoedd mewn 360 yn arbennig?**

🧭 Llwybrau personol: Cwis 'Yn iawn i mi' i ddarganfod cryfderau a diddordebau dysgwyr â rolau posib.


🏢 Mewnwelediadau go-iawn: Teithiau 360°, straeon fideo byr a stondinau rhyngweithiol.

📁 Adnoddau cynhwysfawr: Proffiliau swyddi manwl gan gynnwys sgiliau, cyflogau a llwybrau cymwysterau.

🌍 Hygyrch a dwyieithog: Ar gael ar gyfrifiadur, llechen, ffôn symudol a VR.

Er mai ar gyfer pobl ifanc y crëwyd y porth, mae hefyd yn arf cryf i athrawon, rhieni, cynghorwyr gyrfaoedd ac oedolion sy'n ystyried newid gyrfa.

👉 Archwiliwch y porth: [www.careersin360.com](http://www.careersin360.com)




*1 - [www.careersin360.com](http://www.careersin360.com)*

### Byd Gwaith 360: Pontio'r bwlch rhwng addysg a diwydiant

Mae datblygiad newydd mawr ar y porth eisoes ar y gweill. Mae adran bwrpasol '**Byd Gwaith 360**' - ffair gyrfaoedd rhithwir drochi sy'n gysylltiedig â Gyrfaoedd mewn 360 - yn cael ei hadeiladu i gryfhau presenoldeb a gwelededd busnesau bach ledled Canolbarth Cymru ar y platfform. Fel rhan o hyn, mae cynnydd yn cael ei wneud ar gyfeiriadur Canolbarth Cymru, a fydd yn arddangos busnesau o'r rhanbarth.

Mae cyfeiriadur busnesau Canolbarth Cymru yn lle gall cwmnïau ddarparu gwybodaeth am eu busnes am ddim dros gyfnod prawf o 12 mis, wrth roi ffordd newydd iddynt gyrraedd dysgwyr, ceiswyr gwaith a'r gymuned ehangach.

Mae'r cam nesaf hwn yn gam beiddgar tuag at bontio'r bwlch rhwng addysg a diwydiant, gan ei gwneud yn fwy haws nag erioed i bobl ifanc archwilio cyfleoedd go iawn ac i gyflogwyr lleol amlygu'r gyrfaoedd y maent yn eu cynnig.

Anogir busnesau sy'n dymuno cael eu cynnwys yn y cyfeiriadur Canolbarth Cymru i gysylltu â thîm y Bwrdd Sgiliau Rhanbarthol i gael rhagor o wybodaeth.

## Trafodaethau Digidol

Yn y bennod gyntaf hon, rydym yn adlewyrchu ar Sioe Frenhinol Cymru 2025. Rydym yn clywed gan arweinwyr rhanbarthol, y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion, a'r Cynghorydd Jake Berriman, Arweinydd Cyngor Sir Powys ac yn gyd-gadeiryddion Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru, yn trafod busnesau, ynghyd ag arbenigwyr sgiliau a oedd yn bresennol ar y safle. Maent yn dadansoddi'r prif sgyrsiau, nodi meysydd brys, ac amlygu cyfleoedd a ddaeth i'r amlwg ar draws y sectorau amaethyddiaeth, twristiaeth, ynni ac agri-dechnoleg.

Gwrandewch yma: Growing Mid Wales: Digital Discussions - Business News Wales




### Pennod 2: Magu Arloesedd ym maes Technoleg Amaeth a Thechnoleg Bwyd

🎙️O olrhain wedi’i yrru gan dechnoleg i gadwyni cyflenwi sero net, mae clymblaid o sefydliadau ymchwil, canolfannau arloesi a phartneriaid rhanbarthol yn cefnogi busnesau bach, ymchwilwyr ac entrepreneuriaid ledled Canolbarth a Gogledd Cymru ym maes Amaeth--dechnoleg a thechnoleg bwyd. Mae’r cyflwynydd Gemma Casey yn ymuno ag Aron E. Owen o M-Sparc, Dr Rhian Hayward o AberInnovation, Louise Jones o Innovate UK UKRI a Marcus Burnham o Neurabotics Ltd i drafod Clwstwr Amaeth-Dechnoleg a Thechnoleg Bwyd.

Gwrandewch nawr: [Nurturing Innovation in Agri-Tech and Food Technology](#)



## Gwobrau Busnes Powys 2025




*2 - Y Cynghorydd Jake Berriman, Arweinydd Cyngor Sir Powys, a Chyd-Gadeirydd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru:*

Dathlwyd busnesau Powys yn ddiweddar yng Ngwobrau Busnes Powys 2025 a drefnwyd gan Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru — digwyddiad a oedd yn tynnu sylw at arloesedd, gwytnwch ac uchelgais sy'n gyrru twf ledled y sir. Canmolodd y Cynghorydd Jake Berriman, Arweinydd Cyngor Sir Powys a Chyd-gadeirydd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru, gryfder ac amrywiaeth y gymuned fusnes leol, gan gydnabod eu rôl wrth greu swyddi o ansawdd uchel, cefnogi cadwyni cyflenwi, a chyfrannu at economi ranbarthol fywiog. Anogodd hefyd fwy o fusnesau i wneud defnydd o'r cymorth sydd ar gael i'w helpu i dyfu, uwchsgilio eu gweithlu a buddsoddi ar gyfer y dyfodol. Darllenwch fwy ar wefan Cyngor Sir Powys.

Fel rhan o'r gwobrau, roedd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn falch o noddi Wobr Partneriaeth Busnes-Addysg eleni — categori sy'n dathlu cydweithio rhwng busnesau, ysgolion a dysgwyr i ysbrydoli talent y dyfodol a chryfhau llwybr gweithlu'r rhanbarth.

Mae'r wobr yn cydnabod cyflogwyr sy'n mynd y tu hwnt i ddarparu profiadau dysgu ystyrlon, datblygu sgiliau a rhoi cipolwg ar ddiwydiant i bobl ifanc. Gall hyn gynnwys lleoliadau gwaith, ymweliadau safle, mentora, cefnogi'r cwricwlwm, prentisiaethau neu brosiectau cydweithredol.

Eleni, enillwyd y wobr gan Morland, am eu hymrwymiad cryf a pharhaus i weithio gydag ysgolion a myfyrwyr lleol i gynnig profiad ymarferol o weithgynhyrchu a pheirianneg fodern. Mae eu dull yn helpu pobl ifanc i ddeall llwybrau gyrfa go iawn yng Nghanolbarth Cymru, gan gefnogi datblygiad sgiliau technegol a gweithle.

Llongyfarchiadau hefyd i'r ddau fusnes nodedig a gyrhaeddodd y rhestr fer:

- EOM Electrical Contractors Ltd - aelod o Glwstwr Adeiladaeth y Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, sy'n cefnogi prentisiaethau ac yn annog pobl ifanc i ystyried gyrfaoedd crefft.

- Classic Car Specialist Wales - wedi'u cydnabod am hyrwyddo sgiliau peirianneg treftadaeth a chrefft arbenigol.

Darllenwch mwy [ar wefan PSRh.]




*3 - (O'r chwith i'r dde) Emma Thomas, Cadeirydd yr PSRh; Rachel Jones, Morland; Aelod o dîm Morland.*



*4 - (O'r chwith i'r dde) Louise Grove-White (tîm PSRh); Emma Thomas, Cadeirydd yr PSRh; Teresa Peel-Jones (tîm PSRh); Dai Price, Rheolwr PSRh; Doug Hughes, Rheolwr Gyfarwyddwr Penseiri Hughes a Chadeirydd Grŵp Clwstwr Adeiladu PSRh*

## Tîm Tyfu Canolbarth Cymru – Croesawu aelodau newydd i'r tîm a dweud hwyl fawr wrth eraill



*5 - Peter Jones*

Rydym yn falch o groesawu cydweithwyr newydd i dîm Tyfu Canolbarth Cymru'r mis hwn, gan gryfhau ein gallu wrth inni symud i'r cam nesaf o gyflawni'r rhaglen.

• Mae Natalie Chambers wedi symud i rôl Rheolwr Portffolio Uwch, gan arwain ar reolaeth weithredol y portffolio ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru, ac mae eisoes wedi bod yn rhan o'r tîm ehangach.

• Mae Adam Davies wedi ymuno fel Cynllunydd Portffolio, gan gefnogi cydlynu amserlenni cyflawni Bargen Twf Canolbarth Cymru, cylchoedd adrodd a gwaith cynllunio'r rhaglen ymlaen.

• Mae Marie Evans wedi'i phenodi yn Arweinydd Prosiect Bargen Twf Canolbarth Cymru ac yn mynd ati i gymryd y cyfrifoldebau sydd ar hyn o bryd yn cael eu dal gan Peter Jones, a fydd yn ymddeol ddiwedd y mis hwn. Dymunwn bob hapusrwydd i Peter yn ei ymddeoliad ac rydym yn ei ddiolch yn fawr iawn am ei gyfraniad sylweddol at y Fargen Twf.

• Mae Catrin Sneade wedi'i phenodi yn Arweinydd Ynni Rhanbarthol, gan gefnogi gweithgarwch ar draws y rhanbarth ar gyflawni a chydlynu cynlluniau ynni lleol.

Rydym yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda'r pedwar wrth iddynt ymgymryd â'u rolau newydd.




## Diweddariad - Y Gronfa Buddsoddi Eiddo Masnachol




Lansiwyd Cronfa Buddsoddi Eiddo Masnachol Canolbarth Cymru ar 1 Mai 2025, ac fe'i dyluniwyd i fod yn syml ac yn hygyrch - gan gefnogi busnesau sefydledig (yn bennaf fusnesau lleol) i ddatblygu, ehangu neu ail-bwrpasu safleoedd masnachol er mwyn sbarduno twf ar draws y rhanbarth.

Mae'r Gronfa wedi'i chreu i gefnogi prosiectau a fydd yn helpu i dyfu darpariaeth eiddo masnachol Canolbarth Cymru - o ddatblygu safleoedd newydd (gan gynnwys seilwaith ac adnoddau) i estyn, adnewyddu, ail-ffitio neu drosi adeiladau presennol at ddefnydd busnes.



*6 - Digwyddiad lansio Cronfa Buddsoddi Eiddo Masnachol Canolbarth Cymru*

Ar ôl Galwad Agored a Cham Hyfywedd llwyddiannus, a dderbyniodd 54 o ymholiadau a 22 o gyflwyniadau ffurfiol, rydym yn falch i rannu bod naw cwmni bellach wedi cael gwahoddiad i gyflwyno 'Cynigion Datblygedig' llawn. Roedd eu cynigion o ansawdd uchel yn dangos cyd-fynd cryf â'r strategaeth, gallu i'w gyflawni, hyfywedd ariannol ac effaith botensial.

Mae'r naw prosiect yn cwmpasu croestoriad o sylfaen fusnesau Canolbarth Cymru:

🏭 Gweithgynhyrchu – 5 prosiect

🏗️ Adeiladu – 2 prosiect

🚗 Masnach moduro – 2 prosiect

Mae'r cymysgedd hwn yn adlewyrchu ffocws y Gronfa ar gefnogi twf ar draws sectorau allweddol sy'n sylfaen i economi'r rhanbarth — o weithgynhyrchu uwch ac adeiladu i wasanaethau hanfodol a chadwyni cyflenwi.

Dyma fraslun o gynnydd y Gronfa hyd yma:

✅ 22 o Gynigion Hyfywedd wedi'u cyflwyno (cyfradd dychweliad 100%)

🏗️ 9 prosiect yn symud ymlaen i'r Cam Datblygu

📋 7 prosiect wedi'u gosod ar restr wrth gefn oherwydd cyfyngiadau cyllideb

📍 7 prosiect ym Mhowys, 2 yng Ngheredigion

💼 Cyfanswm gwerth prosiectau: ~£11.12m

💰 Cyfraniad amcangyfrifed gan y Gronfa: ~£3.96m

👷 112 o swyddi newydd; 235 i'w diogelu

🏢 10,394m² o ofod newydd

Bydd y Cam Datblygu yn parhau dros y misoedd nesaf, gyda'r asesiadau terfynol yn debygol o gael eu cwblhau yn gynnar yn 2026. Estynnwn ein llongyfarchiadau i'r ymgeiswyr llwyddiannus ac edrychwn ymlaen at eu cefnogi wrth iddynt ddatblygu manylion eu cynigion ymhellach. Os byddant yn llwyddiannus, bydd y prosiectau hyn yn symud i'r cam cyflawni yn fuan wedi hynny, gan helpu i hybu cyflogaeth, agor gofod gwaith newydd, a chryfhau seilwaith masnachol Canolbarth Cymru

👉Darganfyddwch fwy am y Gronfa: Cronfa Buddsoddi Eiddo Masnachol Canolbarth Cymru

Hoffem hefyd gydnabod y gefnogaeth werthfawr a ddarparwyd i fusnesau drwy gydol y broses ymgeisio - yn enwedig gan ein partneriaid rhanbarthol yn Fusnes Cymru ac Antur Cymru. Mae eu harweiniad wedi helpu cwmnïau i lunio cynigion cadarn, cryfhau achosion busnes a symud ymlaen gyda hyder.

Os yw eich busnes yn archwilio cynlluniau datblygu, ehangu neu gyfleoedd buddsoddi, mae'r sefydliadau hyn yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad am ddim ac yn annibynnol ar draws amrywiaeth o feysydd — o gynllunio ac ariannu i arloesi ac allforio.

👉 Cael cymorth: https://www.tyfucanolbarth.cymru/article/18539/6.-Cysylltu

## Rydym bellach ar Instagram! – dilynwch ni!

Rydym yn gyffrous i rannu bod Tyfu Canolbarth Cymru bellach ar Instagram! 🎉

Bydd ein tudalen newydd yn rhoi golwg y tu ôl i'r llenni ar y prosiectau, y bobl a'r partneriaethau sy'n gyrru twf ar draws y rhanbarth — o ddiweddariadau buddsoddi a chyfleoedd cefnogaeth busnes i fentrau sgiliau, digwyddiadau a straeon o sectorau bywiog Canolbarth Cymru.

Byddwn hefyd yn rhannu cipolwg ar brif garreg filltir, yn tynnu sylw at straeon llwyddiant lleol, ac yn dangos sut rydym yn gweithio gyda phartneriaid i adeiladu economi ranbarthol sy'n gryfach ac yn fwy cynaliadwy.

👉 **Dilynwch ni heddiw:** https://www.instagram.com/growingmidwales/

Dewch yn rhan o'r sgwrs a helpwch ni i ddathlu'r cyfan sy'n digwydd ledled Canolbarth Cymru. Byddwn yn parhau i rannu diweddariadau rheolaidd ar LinkedIn, ond ni fyddwn yn weithredol bellach ar X (Twitter gynt) - felly gwnewch yn siŵr eich bod yn ein dilyn ar Instagram i aros yn gysylltiedig ag yn gyfoes.

## Newyddion Cronfa Ffyniant Cyffredin

Ar draws Ceredigion, mae gweithgarwch y Gronfa Ffyniant Cyffredin (SPF) yn parhau i gefnogi mentrau lleol ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae SBARC Ceredigion wedi croesawu 20 o entrepreneuriaid newydd i'r rhaglen, gan helpu i feithrin syniadau busnes cam cynnar ac adeiladu gallu lleol ar gyfer arloesi. Mae cyllid SPF hefyd wedi cefnogi ystod o ddigwyddiadau cymunedol, gan gynnwys gorymdaith lusernau eleni a gweithdai gwneud llusernau a gyflwynwyd gan Theatr Byd Bach, gan ddod â thrigolion ynghyd ac ychwanegu at gynnig diwylliannol y sir. Mae gwaith hefyd ar y gweill i baratoi ar gyfer blwyddyn bontio Cronfa Strategol Ffyniant Cyffredin y DU, a fydd yn llywio trefniadau cyflawni o 2026 ymlaen.

Ym Mhowys mae'r rhaglenni a ariennir gan yr SPF yn parhau i wneud cynnydd cadarn. Mae'r Grantiau Cyfalaf Busnes Powys — sy'n cynnig hyd at £25,000 i helpu busnesau lleol i fuddsoddi, moderneiddio a thyfu — bellach wedi symud drwy'r cam asesu. Bydd diweddariadau pellach ar ganlyniadau'r ceisiadau yn cael eu rhannu'n fuan.

Mae'r gefnogaeth barhaus hon yn helpu busnesau i adeiladu gwydnwch, cynyddu cynhyrchiant a chreu cyfleoedd newydd ar draws y sir, gan gyfrannu at dwf economaidd ehangach ledled Canolbarth Cymru.

## Pwy sy ar y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Caru Ceredigion 2025?

Yn dilyn llwyddiant Gwobrau Caru Ceredigion cyntaf a gynhaliwyd y llynedd, mae'r gystadleuaeth yn ôl ar gyfer 2025 gyda chategorïau cwbl newydd.

Mae Gwobrau Caru Ceredigion yn dathlu cyfraniadau a llwyddiannau nodedig busnesau, prosiectau cymunedol ac unigolion ar draws y sir.Mae'r rhestr fer ar gyfer gwobrau eleni bellach wedi'i chyhoeddi, ac mae'n cynnwys ystod amrywiol o enwebeion o bob cwr o'r sir.

Mae rhestr lawn o'r cwmnïau ar y rhestr fer i'w gweld yma: [Gwobrau Caru Ceredigion 2025 - Cyngor Sir Ceredigion]()




## Newyddion eraill – diweddariadau a chyfleoedd a rennir gan sefydliadau partner

### Y Rhaglen Sgiliau Hyblyg

Mae'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg yn fenter a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi busnesau ledled Cymru i fuddsoddi ynddyn nhw eu hunain a meithrin gweithlu cryfach a mwy medrus.

Gall cyflogwyr wneud cais am gyllid i dalu am 50% o'r costau hyfforddi achrededig, a gall bob cais ofyn am hyd at £50,000 o gyfraniad. Nid oes isafswm terfyn cyllid a gellir gwneud sawl cais yn ystod y flwyddyn.

Mwy o wybodaeth 👉 https://busnescymru.llyw.cymru/pynciau-a-chyfarwyddyd/cyflogi-pobl-a-gwella-sgiliau/recriwtio-a-hyfforddi/y-rhaglen-sgiliau-hyblyg

### Cyllid ar gyfer busnesau Twristiaeth

Mae sawl opsiwn ar gael i fusnesau twristiaeth sydd am wneud cais am gyllid. Yma gallwch ddarganfod pa opsiynau sydd ar gael a ble i ddod o hyd i fwy o wybodaeth a chyngor.

Mwy o wybodaeth 👉 https://diwydiant.croeso.cymru/cy/cefnogi-chi/gwybodaeth-chyngor-gyllid-ar-gael-ar-gyfer-busnesau-twristiaeth

### Lansio arolwg ar fusnesau cefn gwlad Cymru

Gwaith pwysig dan arweiniad Prifysgol Aberystwyth a'i bartneriaid i ddeall yn well realiti rhedeg busnes yng nghefn gwlad Cymru — a sut y gall polisïau'r dyfodol ymateb.Gyda chymaint o fusnesau'r rhanbarth wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig, mae mewnwelediadau fel hyn yn hollbwysig i lunio'r gefnogaeth gywir ar gyfer y dyfodol.

Cymerwch rhan yn yr arolwg cyn 21 Rhagfyr 👉
https://www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2025/11/title-284817-cy.html

## Llongyfarchiadau mawr i LanoTech Ltd - Busnes Gwledig Newydd Gorau 2025

🎉 Llongyfarchiadau mawr i LanoTech Ltd ar gael ei enwi fel y Busnes Gwledig Newydd (Startup) Gorau yng Ngwobrau Startup Cenedlaethol y DU 2025!

Roedd LanoTech ymhlith y derbynwyr o gyllid 'Arloeswyr Newydd' Innovate UK Wales, rhaglen rydym wedi helpu i'w hwyluso fel rhan o'r Clwstwr Technoleg Amaeth a Thechnoleg Bwyd ar gyfer Canolbarth a Gogledd Cymru ochr yn ochr ag AberInnovation ac M-SParc (& Canolfan Bwyd Cymru | Food Centre Wales, Uchelgais Gogledd Cymru | Ambition North Wales, AMRC)

Mae gwaith LanoTech — gan ddefnyddio lanolin o wlân defaid Prydain fel dewis cynaliadwy arall mewn porthiant anifeiliaid — yn enghraifft wych o arloesi sy'n gwneud gwahaniaeth.

Dymunwn bob llwyddiant i Clodagh, y tîm a'r holl bartneriaid wrth iddynt dyfu a throi'r weledigaeth uchelgeisiol hon yn newid go iawn.



## Ymgynghoriad Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad ar ddyfodol y Gronfa Twf Lleol ar gyfer Cymru — y rhaglen a fwriedir i ddilyn y Gronfa Ffyniant Bro o Ebrill 2026.

Mae hwn yn gyfle i lunio sut y caiff cyllid datblygu economaidd ac adfywio ei gynllunio a'i weithredu yng Nghymru — gan gynnwys sut y gall gefnogi ein cymunedau, ein busnesau a'n lleoedd yma yng Nghanolbarth Cymru.

Fel y nodir yn Natganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, y bwriad yw sicrhau pontio llyfn o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (UKSPF) i ddull cyllido hirdymor newydd sy'n cefnogi blaenoriaethau rhanbarthol a chyflwyno lleol.

👉 Mwy o wybodaeth: https://www.llyw.cymru/cynigion-ar-gyfer-cyflwyno-cronfa-twf-lleol-y-du-yng-nghymru

## Ddinas Lenyddiaeth UNESCO gyntaf Cymru

Mae Aberystwyth wedi'i henwi'n Ddinas Lenyddiaeth UNESCO gyntaf Cymru – carreg filltir arwyddocaol i'n rhanbarth.Mae'n cryfhau economi greadigol Canolbarth Cymru, ein hunaniaeth ddiwylliannol, a'n proffil rhyngwladol — gan gefnogi denu talent, twf busnes a chreu lle.

ABERYSTWYTH
CEREDIGION
DINAS LLÊN · CITY OF LITERATURE

## Edrych ymlaen

Hoffech chi ddal fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Cofiwch, gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol yma:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau YouTube, LinkedIn ac Instagram:

www.instagram.com/growingmidwales/

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

https://www.youtube.com/@TCC-GMW

Rydym yn awyddus i gyrraedd gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru.

Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales